SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
**COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #26 SCHTh Gogledd Cymru – 11 Awst 2023**
**OPCC North Wales Newsletter #26 – 11 August 2023**

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol 2023

Diolch i bawb a ddaeth i ymweld â'n stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ym Moduan, Gwynedd. Ar draws yr wythnos, rydym wedi rhannu gwaith SCHTh a'r mentrau sydd gennym ar waith er mwyn cadw ein rhanbarth yn ddiogel, ac wedi ymuno â chi i ddathlu'r digwyddiad.

Cawsom hefyd y pleser o gyfarfod rhai wynebau cyfarwydd iawn! Bydd ein swyddfa yn y digwyddiadau haf canlynol, dewch draw i siarad â ni:

- **Sioe Môn,** Maes y Sioe, Gwalchmai, Caergybi (15 a 16 Awst 2023)
- **Sioe Dinbych a Fflint,** The Green, Dinbych (17 Awst 2023)
- **Sioe Sir Feirionnydd,** Harlech (23 Awst 2023)






## Office of the Police & Crime Commissioner at the National Eisteddfod 2023

Thank you to everyone who came along and visited our stall at this year’s National Eisteddfod in Boduan, Gwynedd. Across the week, we have shared the work of the OPCC and the initiatives we have in place to keep our region safe, and joined in the celebration of the event with you.

We also had the pleasure of meeting some very familiar faces! Our office will be at the following summer events, come along and talk to us:

- **Anglesey County Show**, The Showground, Gwalchmai, Holyhead (15 & 16 Aug 2023)
- **Denbigh & Flint Show**, The Green, Denbigh (17 Aug 2023)
- **Merioneth County Show**, Harlech (23 Aug 2023)










## Creu fforwm newydd er mwyn atal a lleihau niwed sylweddau yng Ngogledd Cymru

Ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru ym Mae Colwyn, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf corff newydd - Fforwm Atal a Lleihau Niwed. Ei nod ydy codi ymwybyddiaeth yng Ngogledd Cymru am syniadau atal a lleihau niwed camddefnyddio sylweddau ar hyn o bryd. Cadeirir y fforwm gan Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae wedi cael ei greu ar gais Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru.

Mae'r Fforwm Atal a Lleihau Niwed yn dod â'r sefydliadau allweddol sy'n gweithio er mwyn lleihau niwed mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru at ei gilydd. Bydd yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan Kirsty Brooke sy'n rhan o Dîm Lleihau Niwed Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd bob awdurdod lleol, ynghyd â'r gwasanaethau prawf, yr heddlu a'r trydydd sector yn cael eu cynrychioli ar y fforwm. Y cynllun ydy y bydd yn defnyddio arferion gweithio aml-asiantaethau, rhannu arfer da a datrys problemau er mwyn sicrhau fod egwyddorion atal a lleihau niwed yn rhan hanfodol o gyflawni gwasanaeth yn y rhanbarth.

Bydd yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn darparu fforwm er mwyn trafod a chytuno ar gamau cyffredin wrth atal a lleihau niwed, gan ddefnyddio'r ymdriniaeth iechyd cyhoeddus at y mater. **Darllenwch fwy yma.**



## New forum created to prevent and reduce substance harm in North Wales

The first meeting recently took place at North Wales Police HQ in Colwyn Bay of a new body – the Preventing and Reducing Harm Forum – whose aim is to raise awareness within North Wales of current prevention and harm reduction thinking around substance misuse. The forum is chaired by North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin and has been created at the request of the North Wales Area Planning Board.

The Preventing and Reducing Harm Forum brings together the key organisations working to reduce harm in communities across North Wales and will be managed on a day-to-day basis by Kirsty Brooke who is part of the Betsi Cadwaladr University Health Board Harm Reduction Team. Each local authority, as well as probation services, police, and the third sector will be represented on the forum. The plan is that it will use multi-agency working practices, share good practice and problem solve to ensure the principles of prevention and harm reduction are an integral part of all service delivery in the region.

It will meet on a quarterly basis to provide a forum for discussion and the agreement of common actions in preventing and reducing harm, taking a public health approach to the issue. **Read more here.**

## Ymchwil newydd yn amlygu cymorth i ddioddefwyr twyll yng Ngogledd Cymru

Fel rhan o sicrhau fod pobl Gogledd Cymru yn cael eu gwarchod rhag twyll, gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd prosiect arbrofol er mwyn i Weithiwr Achos Twyll ymuno â'r tîm o weithwyr achos arbenigol yn y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr. Dechreuodd yr arbrawf yn 2019. Mae ymchwil diweddar wedi dangos effaith y rôl a sut mae pobl Gogledd Cymru wedi elwa o'r cymorth arbenigol mae'n ei gynnig.

Mae'r Ganolfan Cymorth Dioddefwr yn Llanelwy wedi'i chomisiynu gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i wrando a chynnig cymorth i ddioddefwyr trosedd, sy'n cael eu hannog i ddefnyddio eu gwasanaethau. Gyda'u gwybodaeth arbenigol, gallent gynorthwyo pobl sydd wedi dioddef twyll er mwyn edrych ar ffyrdd o hawlio unrhyw arian sydd wedi'i golli. Gallent gynorthwyo pobl greu gwytnwch er mwyn atal unrhyw droseddau pellach. Gallent ddarparu cymorth personol. Gallent wrando gyda thosturi a chynorthwyo pobl ganfod ffyrdd o reoli a theimlo'n fwy diogel. Gyda chaniatâd y dioddefwr, gallent weithredu fel dadleuwr wrth gwyno wrth fanc neu'r ombwdsmon ariannol. **Darllenwch fwy yma.**



## New research highlights support for victims of fraud in North Wales

As part of ensuring that the people of North Wales are protected from fraud, the PCC funded a pilot project for a Fraud Caseworker to join the team of specialist caseworkers in the Victim Help Centre. The pilot began in 2019 and recent research has shown the impact of the role and how the people of North Wales have benefited from the specialist support it offers.

The Victim Help Centre, which is based in St. Asaph is commissioned by the North Wales Police and Crime Commissioner to listen to and offer support to victims of crime, who are encouraged to use their services. With their specialist knowledge they can help people who have been victims of fraud to look at ways of claiming back any lost money; help people build resilience to prevent any further crimes; provide personalised support; listen with compassion and help people find ways to

manage and feel safer; and, with the victim's consent, to act as an advocate when complaining to a bank or the financial ombudsman. **Read more here.**

---

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES**


Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.



Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy  LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy  LL29 8AW



Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy